GWAS'NAETHU DUW Â CHALON LAWEN

Nodyn i'r siaradwr:
Dangoswch fel gall llawenydd duwiol oresgyn treialon bywyd a'n helpu ni i edrych ar bethau'n optimistaidd. Byddwch yn ymwybodol y gall rhai yn y gynulleidfa fod yn mynd trwy dreialon. Peidiwch â chondemnio. Byddwch yn empathetig ac yn adeiladol

MAE JEHOFAH AM I'W WEISION FOD YN LLAWEN (5 mun.)

"Y Duw gwynfydedig" ("hapus" *NW*) ydi Jehofah (1Tim 1:11)

Mae e am i'w weision fod yn hapus (Phil 4:4)

'Dyw hyn ddim yn golygu y bydd ei bobl mewn rhyw gyflwr o lawenydd parhaol, ond eu bod nhw, yn hytrach, hyd yn oed yn yr amgylchiadau gwaetha', yn medru cael llawenydd o was'naethu Jehofah

Ffrwyth ysbryd Duw ydi llawenydd (Gal 5:22, 23; 1Thes 1:6)

Mae person sydd ag ysbryd Duw ganddo yn medru bod yn llawen

'Dyw llawenydd sy'n seiliedig ar iechyd da, ieuenctid, a phleserau, ac ar arian a phethau materol eraill ddim yn para

Chafodd Solomon ddim llawenydd parhaol yn y pethau hyn (Preg 2:1, 2, 4-8, 11)

Yn cyferbynu â hyn, mae cyfeillgarwch gyda Duw yn ffynhonnell llawenydd parhaol (Salm 64:10)

DAW LLAWENYDD O WAS'NAETHU JEHOFAH (8 mun.)

Darllen a thrafod Salm 100

Salm 100:1, 2

Mae "canu'n llafar" (*BCL*) yn awgrymu na ddylai'n moliant ni fod yn rhywbeth gwan, ond yn egnïol, hyderus, tebyg i gri byddin fuddugol, orchfygol

'Rydym ni'n gorchfygu'r byd drwy gadw gorchmynion Duw (1Ioan 5:3-5)

Mae cyflawni hyn yn dod â llawenydd

Gallwn edrych ar ein gwasanaeth i Dduw yn rhywbeth sy'n bywhau, sy'n adeiladol, nid yn rhywbeth beichus

Mae'n rhoi ystyr i fywyd, gan roi help inni ymdopi â phroblemau a phwysau bywyd

Salm 100:3

Mae llawenydd yn dod o'i 'nabod e fel person, yn Dduw ac yn Greawdwr

Mae Jehofah fel bugail cariadus sy'n gofalu am ei ddefaid

Salm 100:4, 5

Mae rhinweddau/priodoleddau Duw (daioni, caredigrwydd, ffyddlondeb) yn sail anogaeth inni ddiolch iddo a'i foli

'Does 'na ddim arlliw o ddrygioni'n perthyn i Jehofah a gellir dibynnu arno hyd dragwyddoldeb

'Rydym yn ymhyfrydu cael dod i mewn i'w byrth a'i gynteddau (gan gynnwys mynd i'w le addoliad)

Mae'n anrhydedd inni ei gael e'n Dduw inni; mae'n ein gwneud ni'n hapus

MAE PROFIADAU'N DANGOS Y MEDRWN NI WAS'NAETHU DUW YN LLAWEN ER GWAETHA' ANAWSTERAU (12 mun.)

Yn fyr, adroddwch brofiadau:

Brodyr yn yr Ukraine (*w*91 1/1 13-14)

Gwas'naethu Jehofah lle mae rhyfel (*w*91 1/1 28-9)

Yn bosib' bod yn llawen er gwaetha' problemau iechyd a mynych siom personol (*w*90 7/15 31; *w*85 6/15 28)

Daw llawenydd wrth oresgyn rhwystrau er mwyn pregethu'r efengyl (*w*91 1/1 5)

(Chwiliwch am brofiadau eraill mewn *Indexes* diweddar dan "Field Ministry Experiences")

PAM MAE RHAI YN COLLI'U LLAWENYDD (15 mun.)

Mae rhai yn colli'u llawenydd oherwydd nad oes gan bobl fawr o ddiddordeb yn y neges 'rydym yn ei phregethu

Mae'n naturiol inni fod eisiau ymateb cadarnhaol, ond rhaid ystyried y sefyllfa o'r safbwynt iawn

Gallwn ddisgwyl i'r nifer nad ydyn' nhw'n ymateb gynyddu wrth i'r diwedd agosáu (Eseia 6:9-11)

Gall myfyrio ar pam 'rydym ni'n pregethu ein helpu i gadw'n llawenydd

Yn cyhoeddi'r newydd da er tystiolaeth (Math 24:14)

Mawrygu enw Jehofah yn gyhoeddus (Rhuf 10:13-15)

Yn rhoi rhybudd (Esec 3:17, 19)

Rhaid cofio y gall amser fynd heibio cyn y bydd i rai hadau'r gwirionedd ddwyn ffrwyth (Preg 11:6; *w*88 7/15 13)

Mifyddwn yn medi ond inni beidio a llâesu dwylo yn y gwaith pregethu (Gal 6:9)

Mi all problemau personoliaeth achosi inni golli'n llawenydd

Rhaid inni gael golygwedd gytbwys ynglŷn â phersonoliaeth gwahanol gymeriadau yn y gynulleidfa Gristnogol (*w*89 11/15 15-16)

Sicrhewch eich bod yn gyflym i ddatrys anghytundebau fel nad ydyn' nhw'n achosi i chi golli'ch llawenydd (Math 5:23, 24; Eff 4:26, 32)

Byddwch yn faddeugar; peidiwch â mynnu disgwyl i eraill fod yn berffaith (Math 6:12, 14, 15)

'Dyw hi ddim yn ysgrythurol eich cymharu'ch hun ag eraill na chwaith i gystadlu â nhw (1Cor 12:14-16, 21)

Rhaid ymatal rhag eiddigeddu wrth weld cynnydd a breintiau'n dod i ran eraill; peidiwn â brolio'n breintiau ein hunain (*w*90 12/1 16; *w*89 10/15 18)

'Does na ddim esgus dros geisio ennill mwy o amlygrwydd i ni'n hunain (Gal 6:4)

Mi all erlid a threialon eraill achosi inni ddigalonni

Mae Satan yn erlid y rhai mae Duw yn eu cymeradwyo (1Pedr 4:14)

Mae cael ysbryd Duw arnom yn ein gwneud yn hapus

Ystyriwch fuddion dyfalbarhau dan bwysau (Iago 1:2-4)

Ymddiriedwch yn Jehofah; ni wnaiff e fyth eich gadael (Rhuf 8:35, 38, 39)

Pethau dros dro ydi treialon (1Cor 10:13)

'Dyw pethau materol ddim yn dod â hapusrwydd (Luc 12:15)

Gall rhoi ein bryd ar bethau materol ddod â phoen calon

Mae'r agwedd gywir at bethau materol yn dod â bodlonrwydd (1Tim 6:6-12)

GADEWCH I LAWENYDD ORESGYN PROBLEMAU (3 mun.)

Byddwch yn helaeth yng ngwaith yr Arglwydd (1Cor 15:58)

Mae llawenydd cynyddol yn dod i ran y rhai sy'n trefnu'u dyletswyddau personol er mwyn gwneud rhagor yn y weinidogaeth

Cymerwch bob cyfle i wneud rhagor—gwasanaeth amser llawn, symud i ardaloedd lle mae'r angen yn fwy, helpu codi Neuaddau'r Deyrnas, ac yn y blaen

Dylai pob brawd roi ei fryd ar wasanaethu'n was gweinidogaethol neu'n henuriad

Mi all pawb ohonom ni wella o ran darllen ac astudio deunydd theocrataidd

EDRYCHWCH YMLAEN AT LAWENYDD TRAGWYDDOL TEYRNAS DDUW (2 fun.)

Bydd Iesu Grist yn dod â diwedd ar elynion Duw (1Cor 15:25, 26)

Bendithion teyrnasu'r Deyrnas (Dat 21:4)

Llawenydd anghymharol i'r rhai sydd â'r gobaith hwn (Salm 100:2; Rhuf 15:13)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellir, a chadw at amser pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim angen cyfeirio at y deunydd ffynhonnell y cyfeirir ato mewn cromfachau)